# Atodiad 8 – Tystiolaeth yn ymwneud â Chyngor Sir y Fflint

## Tystiolaeth gan y Cyngor

1. Dywedodd Cyngor Sir y Fflint fod gwasanaethau ar gyfer gofalwyr sy’n oedolion a gofalwyr ifanc yn cael eu comisiynu’n bennaf gan Wasanaeth Gwybodaeth Gofalwyr Gogledd-ddwyrain Cymru (“NEWCIS”). Dywedodd fod gwasanaethau i ddefnyddwyr sy’n ymwneud ag iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau yn cael eu comisiynu gan Adferiad. Mae NEWCIS ac Adferiad yn sefydliadau trydydd sector sy’n darparu cymorth a gwasanaethau i ofalwyr. Dywedodd Cyngor Sir y Fflint, pe bai Gweithiwr Cymdeithasol yn ymwneud â’r sawl sy'n derbyn gofal, y byddai’r gofalwr yn cael dewis a fyddent yn dymuno i’r Gweithiwr Cymdeithasol neu NEWCIS gwblhau’r asesiad o anghenion gofalwr a bod rhai asesiadau o anghenion gofalwyr yn cael eu cwblhau gan Weithwyr Cymdeithasol.

2. Dywedodd Cyngor Sir y Fflint fod NEWCIS yn cynnig gwasanaeth sy’n gyson dda. Dywedodd fod ganddynt berthynas gref a dibynadwy a oedd wedi datblygu dros nifer o flynyddoedd. Dywedodd fod asesiadau’n cael eu diweddaru neu eu hailadrodd yn rheolaidd, yn dibynnu ar amgylchiadau unigol y gofalwr.

3. Dywedodd y Cyngor, ni waeth a gwblhawyd yr asesiad o anghenion gan Weithiwr Cymdeithasol neu NEWCIS, fod y broses yr un fath; dywedodd y byddai staff yn cael sgwrs ‘Beth sy’n Bwysig’ gyda’r gofalwr i nodi’r canlyniadau. Dywedodd nad oedd llawer o bobl yn ystyried eu hunain yn ofalwr ac y gallai fod yn agoriad llygad iddynt pan oeddent yn sylweddoli hynny. Dywedodd y Cyngor, i lawer, mai sgwrs Beth sy’n Bwysig yw’r cyfan sydd ei angen ar ofalwyr, ond bod angen rhywfaint o gefnogaeth ar eraill i gynnal eu rôl ofalu. Dywedodd ei fod yn cynnig ystod eang o gefnogaeth a oedd yn bwrpasol i bob gofalwr. Dywedodd y Cyngor, pe bai asesiad yn cael ei gwblhau gan NEWCIS a bod pryderon am y person sy’n derbyn gofal neu’r gofalwr, y byddai NEWCIS, gyda chydsyniad, yn cysylltu â’r Cyngor i weld a allai gynnig rhyw fath o gymorth statudol.

4. Dywedodd y Cyngor, pe bai gofalwr yn gwrthod asesiad, y byddai’n cael ei gofnodi yn y ddogfen Beth sy’n Bwysig. Dywedodd fod yna adran am ofalwyr yn asesiad y person sy’n derbyn gofal i gofnodi bod asesiad o anghenion gofalwr wedi cael ei gynnig i’r gofalwr ac a oedd wedi cael ei dderbyn neu ei wrthod. Dywedodd y Cyngor, pe bai gofalwr yn gwrthod cynnig o asesiad o anghenion gofalwr, y byddai’r cynnig yn cael ei wneud eto, pe bai Gweithiwr Cymdeithasol yn parhau i ymwneud â’r teulu.

5. Cydnabu'r Cyngor mai ef oedd yr awdurdod lleol gyda'r ganran uchaf o asesiadau o anghenion gofalwyr sy'n oedolion sy'n arwain at gynllun cymorth, yng Nghymru. Eglurodd, os oedd gofalwr wedi cael gwasanaeth, naill ai drwy dderbyn grant, cwnsela, hyfforddiant, seibiant neu wedi mynychu gweithgareddau i gefnogi materion yn ymwneud ag unigrwydd, ei fod yn cael ei ystyried yn gynllun cymorth. Eglurodd y Cyngor, pan oedd anghenion yn cael eu nodi, bod gofalwyr yn cael dewisiadau ac opsiynau o ran beth allai eu cefnogi, gan gynnwys defnyddio Taliadau Uniongyrchol ar gyfer gofalwyr, drwy eu hawl eu hunain. Dywedodd y Cyngor, am ychydig o fuddsoddiad, fod Taliadau Uniongyrchol i ofalwyr wedi gwneud gwahaniaeth aruthrol i bobl.

6. Dywedodd y Cyngor, oherwydd y gwaith partneriaeth rhwng NEWCIS a'r Gwasanaethau Cymdeithasol, pe bai unrhyw faterion yn cael eu nodi yn ystod asesiad nad oedd NEWCIS yn gallu delio ag ef, y byddai'r gofalwr yn cael ei drosglwyddo i'r Gwasanaethau Cymdeithasol am gymorth. Dywedodd, gan fod gan NEWCIS wasanaethau gofalwyr diffiniedig sy'n gallu diwallu anghenion gofalwyr, ei fod yn gweithio'n dda pan fo gofalwyr yn cael y ddau sefydliad i'w cefnogi.

7. Dywedodd Cyngor Sir y Fflint ei fod yn cynnal asesiadau o anghenion gofalwyr bob 8 wythnos, ar y cyd â chynrychiolwyr o NEWCIS; maent yn adolygu sampl ar hap o asesiadau a gwblhawyd, yn trafod y cynnwys, yn nodi a oedd yn canolbwyntio ar ganlyniadau ac yn seiliedig ar gryfder ac a oedd yn cydymffurfio â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf"). Dywedodd fod canlyniadau'r archwiliad yn cael eu bwydo'n ôl i'r ymarferwyr. Dywedodd y Cyngor nad oedd wedi nodi unrhyw broblemau sylweddol gydag ansawdd yr asesiadau a adolygwyd ond, pe bai'n gwneud hynny, byddai'r ymarferydd yn cael gwybod ac yn cael rhywfaint o oruchwyliaeth fyfyriol ynghylch gwella ymarfer. Dywedodd y byddai'r dysgu hefyd yn cael ei rannu'n ehangach ymysg staff a'i Swyddog Perfformiad.

8. Dywedodd y Cyngor fod ansawdd ei asesiadau o anghenion gofalwyr yn uchel. Dywedodd fod gofalwyr yn flaenoriaeth i'r Cyngor gan eu bod yn bwysig iawn o ran cefnogi gofal cymdeithasol. Dywedodd, er ei fod yn darparu rhywfaint o gymorth ariannol i NEWCIS i'w alluogi i ddarparu grantiau i ofalwyr, y byddai'r Cyngor yn hoffi gallu cynyddu'r grantiau hynny i alluogi gofalwyr i barhau â'u rôl fel gofalwyr.

9. Dywedodd y Cyngor, ar gyfer gofalwyr nad oedd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn gwybod am y person a oedd yn derbyn gofal, y gallai gofalwyr fod yn amharod i gysylltu â'r

Gwasanaethau Cymdeithasol yn uniongyrchol a gallai NEWCIS fod yn gyfrwng i feithrin hyder y gofalwyr i gael cefnogaeth a chyngor ymarferol, a bod hynny'n gweithredu fel gwasanaeth ataliol, yn enwedig os oedd unigolyn yn nyddiau cynnar eu rôl gofalu.

10. Dywedodd Cyngor Sir y Fflint, pe bai asesiad o anghenion gofalwr yn cael ei gwblhau gan y Gwasanaethau Cymdeithasol a bod y cymorth a ddarparwyd yn rhan o becyn cymorth i'r person hwnnw a'r teulu, y byddai adolygiad cychwynnol yn cael ei gynnal oddeutu 3 mis ar ôl yr asesiad, ac yna adolygiadau blynyddol. Dywedodd y Cyngor, fodd bynnag, pe bai newidiadau sylweddol yn amgylchiadau'r gofalwr, y byddai eu hasesiad yn cael ei adolygu ar unwaith. O ran asesiadau a gwblhawyd gan NEWCIS, dywedodd y Cyngor fod NEWCIS yn cadw mewn cysylltiad agos iawn â'r gofalwyr yr oedd yn ymwneud â hwy, drwy alwadau ffôn dilynol a'i fod yn adolygu asesiadau yn yr un modd ag y mae'r Cyngor yn ei wneud.

11. Dywedodd y Cyngor bod llawer o'i staff yn siarad ieithoedd ychwanegol a'i fod hefyd yn defnyddio llinell gymorth cyfieithu os oedd yn gwybod bod angen gwasanaeth cyfieithu ar ofalwr. Dywedodd hefyd y byddai'n atgyfeirio gofalwyr at wasanaethau eiriolaeth pe bai'n teimlo bod gan y gofalwr anghenion ychwanegol am gymorth.

12. Dywedodd y Cyngor bod cylchlythyr yn cael ei ddosbarthu bob chwarter, a chyfeiriai at NEWCIS a'i wasanaethau yn ei gyhoeddiadau, ei wefan a'i fwletinau staff ei hun.

13. Dywedodd y Cyngor fod gan ei Weithwyr Cymdeithasol gymhwyster proffesiynol i sicrhau bod ganddynt y sgiliau, y wybodaeth a'r cymhwysedd perthnasol i gwblhau asesiadau o anghenion gofalwyr. Dywedodd fod yr hawl i asesiad o anghenion gofalwr yn rhan greiddiol o'r hyfforddiant ar gyfer ei staff tîm Un Pwynt Mynediad ("SPOA") i'w galluogi i adnabod gofalwyr a chael sgwrs Beth sy'n Bwysig. Dywedodd y Cyngor bod NEWCIS yn trefnu i'w staff fynychu cyrsiau penodol i sicrhau bod ganddynt staff hyfforddedig a chymwys yn cwblhau'r asesiadau. Dywedodd y Cyngor fod yr holl staff a ddaeth i gysylltiad â'r cyhoedd drwy eu rôl wedi cael eu hyfforddi mewn diogelu a bod yr hawl i asesiad o anghenion gofalwr hefyd yn rhan o bolisi gweithio hyblyg y Cyngor.

14. O ran cydweithio, dywedodd Cyngor Sir y Fflint fod aelod o'i staff a NEWCIS yn mynychu Rhwydwaith Dysgu a Gwella Gofalwyr Cymru Gyfan (COLIN), roedd ganddo Grŵp Strategaeth Gofalwyr, ac roedd yn mynychu'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Dywedodd y Cyngor ei fod yn aelod gweithredol o Grŵp Cynghori'r Gweinidog ("MAG").

15. Croesawodd Cyngor Sir y Fflint gyfle i rannu ei arferion da. Dywedodd fod 380 o ofalwyr, yn 2022/2023, yn derbyn gwasanaeth 'Pontio'r Bwlch' gan NEWCIS. Roedd y gwasanaeth Pontio'r Bwlch yn darparu dros 3000 awr o seibiant i ofalwyr yn y sir. Dywedodd fod gweithio mewn partneriaeth â 'Micro Ofalwyr Sir y Fflint' yn rhoi hyd yn oed mwy o opsiynau a hyblygrwydd i ofalwyr. Eglurodd y Cyngor hefyd fod ei opsiwn 'Pontio'r Bwlch' i Deuluoedd yn caniatáu i ffrindiau neu deulu gefnogi'r gofalwr gyda'i rôl gofalu, a oedd wedi bod yn hanfodol, oherwydd heriau mewn gwasanaethau gofal a gyda llawer o ddarparwyr yn methu â bodloni'r gofynion presennol. Dywedodd y Cyngor fod defnyddwyr gwasanaeth yn adrodd am effeithiau cadarnhaol y gwasanaeth a ddarperir ar leihau arwahanrwydd ac allgáu cymdeithasol, iechyd meddwl a chyfleoedd i gysylltu â phobl a lleoedd.

16. Dywedodd y Cyngor fod Arolygiaeth Gofal Cymru ("AGC"), yn ei Archwiliad Sicrwydd, yn dweud bod gweithio mewn partneriaeth yn gryf ac wedi gwella ar ôl y pandemig a bod yna gyd-ddealltwriaeth o'r hyn sy'n bwysig i bobl. Dywedodd y Cyngor fod AGC hefyd wedi nodi bod anghenion gofalwyr yn cael eu hystyried yn briodol a'u bod yn cael cefnogaeth dda.

17. Dywedodd Cyngor Sir y Fflint ei fod yn poeni bod gofalwyr a oedd yn byw yn ardal yr awdurdod lleol yn nodi, yn ystod ein hymgynghoriad, nad oedd y cynlluniau cymorth a gynigiwyd yn diwallu eu hanghenion/canlyniadau asesedig a bod ystod gyfyngedig o opsiynau cymorth yn cael eu cynnig. Dywedodd ei bod yn bwysig deall y rhesymau dros fethu â bodloni disgwyliadau gofalwyr; nid yw anghenion pob gofalwr yn cael eu diwallu bob amser, er enghraifft, efallai na fydd gwasanaethau seibiant ar gael, neu efallai eu bod yn gyfyngedig. Dywedodd y Cyngor fod hyn yn fwy cyffredin ymysg rhieni sy'n ofalwyr, yn enwedig gyda gofalwyr plant awtistig.

18. Dywedodd y Cyngor fod cludiant yn dal yn broblem i ofalwyr, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Fodd bynnag, dywedodd fod NEWCIS wedi sicrhau cyllid Loteri ar gyfer bws mini i leihau'r rhwystr hwn a diwallu anghenion nas bodlonwyd.

19. Tynnodd y Cyngor sylw at ganlyniadau ymgynghoriad diweddar gan NEWCIS a oedd yn nodi'r rhwystrau canlynol sy'n atal gofalwyr rhag defnyddio gwasanaethau cyffredinol:

- Amser
- Trafnidiaeth
- Cost gweithgareddau
- Anghenion gofal seibiant
- Pryder a nerfusrwydd ynghylch ymuno â phethau newydd
- Euogrwydd am adael y sawl sy'n derbyn gofal
- Cael gafael ar sefydliadau a gwasanaethau ers y pandemig
- Cael gafael ar y person iawn
- Newidiadau parhaus yn y gwasanaethau a'r bobl maen nhw'n siarad â nhw.

20. Dywedodd Cyngor Sir y Fflint, ers y pandemig, nad yw'r gwasanaethau traddodiadol a gynigir i gefnogi gofalwyr wedi cael eu cynnal, er enghraifft, roedd gofal dydd a seibiant y gellir ei archebu wedi dod i ben ar gyfer pobl hŷn ac roedd yn cymryd amser i'w ailgyflwyno. Dywedodd y Cyngor ei fod wedi cydnabod effaith hyn a'i fod wrthi'n annog ffyrdd mwy creadigol o gefnogi'r gofalwyr, er enghraifft, Taliadau Uniongyrchol drwy hawl y gofalwr ei hun.

21. Darparodd Cyngor Sir y Fflint gopi o broses NEWCIS ar gyfer darparu asesiadau statudol ac adroddiadau monitro contractau a dangosodd ei fod yn cynnal archwiliadau o asesiadau o anghenion gofalwyr a gwblhawyd gan NEWCIS, Adferiad a gan ei staff ei hun, bob 8 wythnos. Darparodd y Cyngor hefyd enghreifftiau o astudiaethau achos ac adborth cadarnhaol a gafwyd am ei wasanaeth, gan gynnwys:

- "Roedd [aelod o staff NEWCIS] mor gefnogol a charedig yn ystod y broses a bu'n cadw mewn cysylltiad i fonitro'r broses o newid... helpodd y CNA [Asesiad o Anghenion Gofalwr] i nodi beth fyddai'n helpu, ac roedd NEWCIS wedi galluog i'r newidiadau gael eu rhoi ar waith".
- "Diolch am roi cyfle i ni fynegi ein hunain yn y sesiynau bach sydd gennym, efallai eu bod yn ymddangos yn fach ond maen nhw'n gwneud gwahaniaeth go iawn".
- "Roeddwn i wir eich angen i'm tywys i'r lle rydw i heddiw. Fe wnaethoch fy helpu i ddod yn fwy ymwybodol o fy rôl gofalu"

22. Dywedodd y Cyngor bod gwasanaethau eiriolaeth yn cael eu darparu gan Wasanaethau Eiriolaeth Gogledd-ddwyrain Cymru ("ASNEW"), Cymdeithas Cyngor ac Eiriolaeth Gogledd Cymru ("NWAAA"), Tros Gynnal Plant Cymru, Age Cymru, Fforwm Anabledd Sir y Fflint ac Age Connects Gogledd Ddwyrain Cymru.

23. Gofynnwyd i'r Awdurdodau Ymchwilio hefyd ddarparu'r data cydraddoldeb a gofnodwyd ar gyfer gofalwyr yr aseswyd eu hanghenion yn 2022/2023 i'r ymchwiliad. Darparodd Cyngor Sir y Fflint ddata yn ymwneud ag ethnigrwydd y gofalwyr yr aseswyd eu hanghenion. Lle cofnodwyd ethnigrwydd, sef mewn 41% o'r rhai yr aseswyd eu hanghenion), cofnodwyd bod 92% yn Wyn, a 8% o 'unrhyw' gefndir ethnig arall. Ni ddarparwyd unrhyw ddata i ddechrau ar gyfer oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, dewis iaith nac anabledd. Mewn ymateb i fersiwn drafft yr adroddiad hwn, darparodd Cyngor Sir y Fflint ddata cydraddoldeb ar gyfer pob gofalwr a gofrestrwyd gyda'r awdurdod – 10,367 o ofalwyr sy'n oedolion a 364 o ofalwyr ifanc. Roedd y data hwn yn cynnwys ethnigrwydd, oedran, anabledd, rhyw ac iaith. Ni ddarparwyd unrhyw ddata cydraddoldeb pellach ar gyfer gofalwyr, oedolion sy'n ofalwyr a gofalwyr ifanc, yr aseswyd eu hanghenion.

24. Mewn arolygon gwerthuso perfformiad diweddar gan AGC yng Nghyngor Sir y Fflint (Tachwedd 2023), nodwyd meysydd i'w gwella. Canfu AGC fod angen i Gyngor Sir y Fflint gryfhau ei systemau o ran asesiadau o anghenion gofalwyr, er mwyn sicrhau bod hawliau a lleisiau pob gofalwr yn cael eu hyrwyddo'n llawn. Dywedodd nad oedd asesiadau gofalwyr yn cael eu cofnodi na'u cyfleu'n ddigonol i'r awdurdod lleol. Dywedodd AGC ei fod wedi gweld enghreifftiau yn Sir y Fflint lle nad oedd ymarferwyr yn gwybod a oedd asesiad o anghenion gofalwr wedi cael ei gynnal ac, os felly, beth oedd canlyniad yr asesiad. Dywedodd AGC fod yn rhaid i Gyngor Sir y Fflint oruchwylio'r asesiadau hyn yn well, er mwyn bod yn hyderus ei fod yn cyflawni ei gyfrifoldebau'n llawn yn unol â gofynion Rhan 3 a Rhan 4 y Cod, o ran asesu a diwallu anghenion unigolion.

## Tystiolaeth gan NEWCIS

25. Mae NEWCIS yn fudiad elusennol sy'n darparu gwasanaethau gofalwyr i ardaloedd awdurdodau lleol Sir y Fflint, Sir Ddinbych a Wrecsam. Dywedodd ei fod yn cael ei ariannu'n rhannol gan yr awdurdod lleol, yn ogystal â chyllidwyr eraill a hefyd yn codi ei arian ei hun.

26. Dywedodd NEWCIS ei fod wedi darparu gwasanaethau i oedolion yn Sir y Fflint ers dros 28 mlynedd. Eglurodd ei fod wedi ennill y contract i ddarparu gwasanaethau gofalwyr ar gyfer gofalwyr sy'n oedolion a gofalwyr ifanc i Gyngor Sir y Fflint ym mis Gorffennaf 2020. Dywedodd y bu'n rhaid iddo ddechrau'r gwasanaeth yn rhithiol, oherwydd cyfyngiadau COVID-19. Dywedodd NEWCIS fod ganddo swyddog dyletswydd bob dydd, i'w alluogi i ddarparu cymorth ar unwaith i unrhyw ofalwyr sy'n wynebu argyfwng. Dywedodd y byddai

gwybodaeth lefel isel, er enghraifft, cais am wybodaeth, hefyd yn cael ei thrin ar yr un diwrnod. Esboniodd NEWCIS, pe bai angen mwy ar ofalwr, y byddai swyddog lles yn cael ei ddyrannu iddo a fyddai'n cysylltu â'r gofalwr o fewn 5 diwrnod.

27. Mae proses NEWCIS ar gyfer darparu asesiadau statudol yn nodi bod yn rhaid cynnig asesiad ar gyfer gofalwyr sy'n oedolion fel cyfarfod 1:1, gyda'r gofalwr yn cael gwybod y gall ddewis a ddylai'r sawl sy'n derbyn gofal fod yn bresennol ai peidio. Mae'r broses hefyd yn amlinellu bod yn rhaid trafod eiriolaeth gyda'r gofalwr a dylid trafod unrhyw bryderon ynghylch anghenion gallu neu gyfathrebu'r gofalwr gyda rheolwr llinell.

28. Eglurodd NEWCIS fod dwy elfen i'r broses ar gyfer gofalwyr ifanc, yn yr ystyr ei bod yn ymgysylltu'n gyntaf â'r rhiant neu'r person sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y gofalwr ifanc i drafod eu canlyniadau dymunol ac unrhyw faterion diogelu. Dywedodd fod yr asesiad gyda'r gofalwr ifanc wedyn naill ai'n cael ei gwblhau gyda'r rhiant yn bresennol neu gyda'r gofalwr ifanc ar ei ben ei hun, fel arfer yn ei ysgol, sy'n amgylchedd sy'n gyfarwydd iddo ac sy'n caniatáu iddo siarad yn fwy rhydd.

29. Dywedodd NEWCIS fod llawer o ddryswch ynghylch asesiadau o anghenion gofalwyr; dywedodd ei fod yn eu galw'n sgyrsiau 'Beth sy'n Bwysig' a'i fod yn ystyried bod 2 ran, 1 a 2, a'i fod yn ystyried bod asesiad o anghenion gofalwr yn 'Beth sy'n Bwysig 2'. Dywedodd, pe na bai NEWCIS yn gallu diwallu angen gofalwr neu ei bod yn ymddangos bod angen gan y person sy'n derbyn gofal, y byddai'n trosglwyddo'r asesiad yn ôl i'r Cyngor, ond y byddai hefyd yn parhau i ddarparu unrhyw gymorth y gallai ei ddarparu. Dywedodd NEWCIS fod y dryswch hwn yn aml yn arwain at bobl yn dweud nad oeddent wedi cael asesiad o anghenion gofalwr pan oeddent wedi cael hynny, gan alw am ddull gweithredu cyson ledled Cymru.

30. Dywedodd NEWCIS ei bod yn debyg bod ei gyfran uchel o asesiadau a arweiniai at gynllun cymorth yn ganlyniad i'r gwasanaethau niferus yr oedd yn gallu eu cynnig i ofalwyr, er enghraifft, cyrsiau hyfforddi mewn perthynas â rheoli ymddygiad y rhai sydd wedi cael diagnosis o ddementia a'i allu i ymateb i anghenion gofalwyr o ran darparu grantiau, blychau bwyd, cwnsela a digwyddiadau grŵp. Dywedodd NEWCIS fod ei swyddogion lles hefyd wedi helpu gofalwyr i gysylltu â'r Gwasanaethau Cymdeithasol a meddygon teulu. Dywedodd NEWCIS fod ei wasanaeth yn cael ei arwain gan y gofalwr, gyda'r gofalwr yn dweud wrth ei staff beth fyddai'n ddefnyddiol iddynt, a'i fod yn pennu pa gymorth neu fudiadau trydydd sector eraill a allai ddiwallu eu hanghenion penodol.

31. Dywedodd NEWCIS mai un fantais o asesu anghenion gofalwr ar wahân i anghenion y sawl sy’n derbyn gofal, oedd bod Gweithwyr Cymdeithasol wedi’u cyfyngu i’w gwasanaethau mewnol a’r hyn y gallent ei gynnig yn statudol. Fodd bynnag, dywedodd fod cannoedd o wasanaethau cymorth ar gael ac nad oedd Gweithwyr Cymdeithasol bob amser yn ymwybodol ohonynt, a dyna pam fod y Cyngor wedi cyfeirio gofalwyr at ei wasanaethau. Roedd NEWCIS o’r farn bod gwasanaethau awdurdodau lleol dan bwysau gyda galw mawr am eu gwasanaethau; dywedodd fod gofalwyr yn cael trosolwg mwy cytbwys a chyfannol wrth dderbyn ymyrraeth gan y trydydd sector. Dywedodd NEWCIS fod ganddo berthynas dda iawn gyda staff y Cyngor a’u bod bob amser yn fodlon cymryd rhan mewn perthynas â diogelu neu Daliadau Uniongyrchol ar gyfer gofalwyr.

32. Dywedodd NEWCIS fod ei wasanaeth Pontio’r Bwlch wedi bod yn llwyddiannus iawn ac, yn dilyn cais gan Lywodraeth Cymru, roedd wedi ysgrifennu pecyn cymorth a oedd wedi cael ei rannu â phob awdurdod lleol yng Nghymru.

33. Esboniodd NEWCIS mai’r categori mwyaf anodd o ofalwr i gael gwasanaeth ar ei gyfer oedd rhieni sy’n ofalwyr oherwydd, er eu bod yn gallu cael gafael ar yr holl gymorth sydd ar gael iddynt fel oedolion, prin oedd y gwasanaethau a oedd ar gael i’w plentyn, gan arwain at gyfleoedd seibiant cyfyngedig, yn enwedig yn ystod gwyliau ysgol, i rieni sy’n ofalwyr, ac nid oedd bob amser yn gallu cyfateb gwasanaeth i’r anghenion a nodwyd, a allai arwain at rywfaint o adborth negyddol. Dywedodd NEWCIS fod ei gynllun Pontio’r Bwlch yn gyfyngedig o ran faint o ddarparwyr oedd yn cynnig gwasanaethau seibiant i blant ag anghenion ychwanegol, ond roedd ei gynllun Pontio’r Bwlch yn galluogi rhieni sy’n ofalwyr i gael cymorth a chefnogaeth yn eu cartref eu hunain gan aelod o’r teulu neu ffrind drwy ddarparu grantiau i dalu am eu costau teithio neu brydau bwyd ychwanegol. Dywedodd fod cael cefnogaeth aelod o'r teulu neu ffrind mewn amgylchiadau o'r fath yn rhoi cefnogaeth emosiynol a chymorth lles i'r gofalwr a chyfleoedd i'r teulu glosio.

34. Dywedodd NEWCIS fod y cynllun Pontio'r Bwlch wedi bod yn arbennig o ddefnyddiol i ofalwyr sy'n gwneud cais am Daliadau Uniongyrchol drwy eu hawl eu hunain, gan fod hyn yn sicrhau bod gofalwyr yn cael eu cefnogi wrth i'w cais gael ei brosesu, gan ganiatáu i ofalwyr gynnal eu rôl gofalu. Dywedodd NEWCIS fod y broses ar gyfer gwneud cais am Daliadau Uniongyrchol i ofalwyr wedi cael ei mireinio a’i bod wedi gweithio’n dda iawn i ofalwyr. Dywedodd fod ei staff yn llenwi’r ffurflenni cais ar gyfer y gofalwr ac yn eu cefnogi drwy’r broses, gan gysylltu â’r panel pan fo angen.

35. Dywedodd NEWCIS, fel rhan o'i gyswllt â'r Cyngor, ei bod yn ofynnol iddo adolygu asesiadau a gwblhawyd o fewn 12 mis, ond eu bod fel arfer yn cael eu hadolygu'n llawer cynt na hynny, er mwyn sicrhau bod y gefnogaeth yr oedd gofalwyr yn ei chael yn parhau'n briodol i ddiwallu eu hanghenion ac na fu unrhyw newidiadau sylweddol yn eu hamgylchiadau a allai olygu bod angen eu cyfeirio at y Gwasanaethau Cymdeithasol. Pwysleisiodd NEWCIS hefyd fod eu gwasanaethau'n dal ar agor i ofalwyr a allai hefyd gysylltu â nhw eto, petai angen, ar unrhyw adeg.

36. O ran adborth gan ofalwyr, dywedodd NEWCIS ei fod yn adolygu canlyniad asesiad gyda'r gofalwr ar ôl 6 wythnos. Anfonai holiadur adborth blynyddol at ofalwyr ac roedd adran adborth ar ei wefan. Dywedodd NEWCIS ei fod hefyd yn cynnal grwpiau ffocws gyda'i ofalwyr, gan roi cyfle iddynt ddweud wrthynt beth sydd ei angen arnynt, er enghraifft, hyfforddiant mewn meysydd pwnc penodol, fel cymorth cyntaf.

37. Dywedodd NEWCIS, pan wrthodai gofalwr asesiad statudol, ei fod yn cofnodi'r penderfyniad ar ei gronfa ddata cofnodi ei hun. Dywedodd, gan ei fod wedi cael cyllid o ffynonellau amrywiol, y byddai'n gweld a allai gefnogi gofalwr a wrthododd asesiad, mewn ffyrdd lle nad oedd yn rhaid rhannu gwybodaeth am y gofalwr â'r awdurdod lleol.

38. O ran pontio o wasanaethau gofalwyr ifanc i wasanaethau gofalwyr sy'n oedolion, eglurodd NEWCIS fod ganddo grŵp gofalwyr sy'n oedolion ifanc i ddarparu cymorth, a bod gofalwyr ifanc yn cael eu cyflwyno'n raddol i ddarpariaethau gwasanaethau i oedolion. Dywedodd, gan ei fod yn darparu gwasanaethau i oedolion sy'n ofalwyr a gofalwyr ifanc, fod y pontio yn ddi-fwlch ac yn haws i ofalwyr ifanc. Dywedodd NEWCIS ei fod hefyd yn cefnogi gofalwyr ifanc sy'n oedolion drwy gysylltu â sefydliadau addysg bellach i sicrhau bod eu statws gofalwr yn cael ei gydnabod a'u bod yn cael eu cefnogi i gynnal eu hanghenion addysgol.

39. Dywedodd NEWCIS fod ganddo staff sy'n siarad Cymraeg, er na ofynnwyd yn aml iddo gwblhau asesiadau o anghenion gofalwyr yn Gymraeg. Dywedodd ei fod yn ceisio gwasanaethau cyfieithu ar gyfer ieithoedd eraill, gan gynnwys Iaith Arwyddion Prydain ("BSL"), gan sefydliadau eraill. Dywedodd NEWCIS ei fod weithiau'n defnyddio gliniaduron i gwblhau'r asesiadau, gan ganiatáu i'r asesydd a'r gofalwr deipio cwestiynau ac ymatebion. Dywedodd NEWCIS, pe bai rhwystrau corfforol yn atal gofalwr rhag mynd i asesiad o anghenion gofalwr, y byddai'n cynnal ymweliad cartref yn lle hynny. Dywedodd ei fod hefyd yn edrych ar ddatblygu grwpiau cymorth penodol ar gyfer gofalwyr niwroamrywiol a rhyweddhylifol.

40. Dywedodd NEWCIS ei fod yn darparu gwasanaeth eiriolaeth lefel isel i ofalwyr, ond y gellid darparu eiriolaeth fwy ffurfiol i oedolion gan ASNEW, Gwasanaeth Eiriolaeth Gogledd Cymru a gwasanaethau Eiriolaeth Iechyd Meddwl Annibynnol, gyda gwasanaeth cyfyngedig yn cael ei ddarparu gan Age UK. Dywedodd fod SNAP Cymru a Meic, dau wasanaeth sy'n darparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth, hefyd yn darparu eiriolaeth, gwybodaeth a chyngor i bobl ifanc hyd at 25 oed. Dywedodd y gofynnwyd i bob gofalwr a oedd angen cefnogaeth eiriolwr arnynt, a chofnodwyd hyn ar eu ffurflen asesu.

41. Dywedodd NEWCIS na allai bob amser ddiwallu anghenion gofalwyr, oherwydd yr adnoddau cyfyngedig sydd ganddo. Dywedodd, er nad yw'n asesu gofalwyr yn ariannol, ei fod yn asesu'r angen wrth ddyrannu adnoddau. Dywedodd NEWCIS ei fod, o ran grwpiau cefnogi, yn ceisio diwallu anghenion gwahanol grwpiau o ofalwyr drwy gynnal cyfarfodydd yn ystod y dydd, gyda'r nos ac
ar benwythnosau. Dywedodd fod grwpiau cefnogi gyda'r nos yn arbennig o ddefnyddiol ar gyfer gofalwyr sy'n gweithio. Dywedodd NEWCIS ei fod hefyd yn gallu darparu ar gyfer asesiadau o anghenion gofalwyr ar benwythnosau, os oedd angen.

42. Darparodd NEWCIS gopïau o'r adnoddau gwybodaeth sydd ar gael i gefnogi gofalwyr.

43. Dywedodd NEWCIS ei fod yn adolygu'n rheolaidd ddetholiad ar hap o asesiadau o anghenion gofalwyr a gwblhawyd ar y cyd â'r Cyngor, a gallai feddwl ond am 1 asesiad y gellid bod wedi'i wella oherwydd y diffyg manylion a gofnodwyd. Dywedodd ei fod yn rhannu dysgu ac arferion da gyda staff ar gyfer eu datblygiad.

44. O ran hyfforddiant staff, dywedodd NEWCIS fod pob aelod newydd o staff yn cysgodi aelod arall o staff cyn iddynt ddechrau cwblhau asesiadau o anghenion gofalwyr. Dywedodd ei fod hefyd yn cofrestru staff ar gyfer City and Guilds mewn Iechyd, Gofal Cymdeithasol a chymhwyster IAA, ond dywedodd fod diffyg arweiniad clir ynghylch pa gymwysterau y dylai staff sy'n cwblhau asesiadau o anghenion gofalwyr eu cael.

45. Dywedodd NEWCIS ei fod yn codi ymwybyddiaeth o hawliau gofalwyr drwy ei wefan, ei gylchlythyr chwarterol ac ar y cyfryngau cymdeithasol. Dywedodd nad oedd dim y byddai'n ei newid na'i wella am y gwasanaeth a ddarperir i ofalwyr ar hyn o bryd. Dywedodd fod NEWCIS bob amser yn ceisio gwella neu newid gwasanaethau, pe bai'r angen yno ac y byddai bob amser yn ceisio cyllid i ganiatáu hyn. Dywedodd NEWCIS fod newidiadau'n cael eu gwneud yn aml o fewn contractau, mewn partneriaeth â'i gyllidwyr, gyda newidiadau'n

seiliedig ar anghenion gofalwyr.  Dywedodd NEWCIS nad oedd yna unrhyw rwystrau i asesu anghenion gofalwyr.  Dywedodd NEWCIS fod ei ffurflen asesu gofalwyr ifanc yn hir iawn, ac roedd yn awyddus i weld a ellid ei chwtogi, gan sicrhau ar yr un pryd ei bod yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol.

**Tystiolaeth gan Adferiad**

46. Mae Adferiad yn sefydliad elusennol sy'n cefnogi pobl sydd â salwch meddwl difrifol a dibyniaeth ar sylweddau, a'u hanwyliaid, gan gynnwys eu gofalwyr.  Mae wedi darparu gwasanaethau wedi'u comisiynu i Gyngor Sir y Fflint ers blynyddoedd lawer, mewn perthynas â gofalwyr a thai.

47. Eglurodd Adferiad yr arferai dderbyn atgyfeiriadau gan y Timau Iechyd Meddwl Cymunedol ("CMHT") a'r ysbytai ond, yn dilyn adolygiad, cytunwyd ar un pwynt mynediad, drwy NEWCIS.  Dywedodd Adferiad, oherwydd yr un pwynt mynediad, ei fod yn dibynnu ar NEWCIS i anfon yr atgyfeiriad ymlaen ato.  Dywedodd ei bod yn ymddangos weithiau bod NEWCIS yn prosesu atgyfeiriadau i Adferiad fel swp, a fyddai'n golygu brysio i'w gwthio i gyd drwy'r broses asesu.

48. Dywedodd Adferiad, yn ystod ei gyswllt cychwynnol neu asesiad yn NEWCIS, pe bai'n dod i'r amlwg bod gan y person sy'n derbyn gofal salwch meddwl difrifol a/neu ddibyniaeth ar sylweddau, byddai'r gofalwr yn cael ei atgyfeirio at Adferiad.  Dywedodd y gallai'r broses o asesu anghenion gofalwyr fod yn hir oherwydd cymhlethdodau amgylchiadau'r gofalwr. Dywedodd Adferiad ei fod, yn fwy diweddar, wedi gallu derbyn gofalwyr a gysylltodd ag ef, yn uniongyrchol, ar yr amod ei fod yn rhoi gwybod i NEWCIS am y cyswllt.

49. Dywedodd Adferiad fod ganddo 1 aelod o staff, wedi'i hyfforddi hyd at Lefel 4 Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a'i rôl oedd cwblhau asesiadau o anghenion gofalwyr.

50. Dywedodd Adferiad ei fod wedi cwblhau archwiliadau o asesiadau o anghenion gofalwyr a gwblhawyd ar y cyd â Chyngor Sir y Fflint a NEWCIS ac mae'r grŵp yn ystyried asesiadau o anghenion gofalwyr a gwblhawyd gan y Cyngor, NEWCIS ac Adferiad.

51. O ran monitro a yw'r canlyniadau a nodwyd yn ystod asesiad yn parhau i ddiwallu anghenion gofalwyr, dywedodd Adferiad fod hyn fel arfer yn cael ei fonitro gan yr aelod o staff a gwblhaodd yr asesiadau.  Dywedodd, yn ddiweddar, fod hyn wedi bod yn broblemus,

gan fod yr aelod o staff wedi bod ar absenoldeb tymor hir a'i fod wedi cymryd camau ychwanegol i sicrhau bod staff eraill yn gallu cael mynediad at y systemau rheoli perthnasol a chadw mewn cysylltiad â gofalwyr.  Yn yr un modd, roedd wedi gwneud trefniadau amgen i unrhyw ofalwyr newydd sy'n cysylltu â'r gwasanaeth i sicrhau eu bod yn cael cynnig asesiad o anghenion gofalwr.  Dywedodd Adferiad ei fod hefyd yn y broses o recriwtio staff banc a fydd yn gallu helpu mewn amgylchiadau o'r fath yn y dyfodol.

52. Dywedodd Adferiad y gall gofalwyr gadw mewn cysylltiad â'i wasanaeth drwy e-bost a neges destun a bod gofalwyr bob amser yn cael gwybod y dylent gysylltu â nhw os ydynt mewn argyfwng.  Dywedodd hefyd ei fod yn dweud wrth ofalwyr a oedd yn symud ymlaen i gysylltu â nhw, gan eu bod yn gallu rhannu'r wybodaeth roeddent eisoes wedi'i rhoi i Adferiad am eu rôl gofalu ag unrhyw ddarparwr cymorth newydd.

53. Dywedodd Adferiad nad oedd yn monitro pa mor fodlon yr oedd gofalwyr â chanlyniad eu hasesiadau.  Dywedodd ei fod yn arfer anfon ffurflenni monitro at ofalwyr yn flynyddol i fonitro pa mor fodlon oedd gofalwr gyda chanlyniadau eu hasesiad.  Dywedodd ei fod i fod i gwblhau adolygiad blynyddol ar gyfer pob asesiad gofalwr ac roedd hwn yn faes yr oedd am ei wella. Fodd bynnag, fel rhan o'u hasesiad, cafodd gofalwyr gyfle i godi unrhyw faterion os nad oeddent yn fodlon â'r canlyniad.

54. Pe bai gofalwr yn gwrthod asesiad o anghenion gofalwr, dywedodd Adferiad y byddai'n cael ei gofnodi ar ei system rheoli achosion.  Dywedodd, mewn amgylchiadau o'r fath, y byddai gofalwr yn cael cynnig cymorth, ni waeth a oedd ei anghenion wedi cael eu hasesu'n ffurfiol, er enghraifft, cymorth emosiynol.  Dywedodd Adferiad, yn aml, pan gysylltai gofalwyr â'u gwasanaeth, eu bod mewn argyfwng ac yn ceisio cymorth i'r sawl sy'n derbyn gofal.  Dywedodd nad oedd ganddynt ddiddordeb yn aml mewn ceisio cefnogaeth iddynt eu hunain a'u bod yn tueddu i roi eu hunain yn ail.

55. Dywedodd Adferiad fod rhai gwasanaethau ar gael yn fewnol i ofalwyr, er enghraifft, rheoli dyledion a chymorth iechyd meddwl, gyda rhagor o gymorth ar gael i'w drefnu yn y gymuned.  Dywedodd ei fod yn arfer cael ei gyllid ei hun i ddarparu grantiau bach i ofalwyr ar gyfer gofal seibiant a chwnsela ond bod hyn i gyd bellach yn cael ei wneud drwy NEWCIS, gyda'i ofalwyr yn gwneud cais i NEWCIS am grantiau a chwnsela.  Dywedodd NEWCIS fod hyn yn arafu'r broses.  Dywedodd Adferiad fod NEWCIS hefyd wedi anfon gwybodaeth at ei ofalwyr am ei grwpiau cymorth a'i ddigwyddiadau a bod rhai o'r gofalwyr yr oedd Adferiad wedi delio â nhw wedi cael gafael ar wasanaethau cymorth a gynigir gan Adferiad a NEWCIS.

56. Dywedodd Adferiad ei fod yn ceisio cyrraedd y gofalwyr cudd a'i fod wedi nodi bod angen adran gofalwyr ar ei wefan i roi gwybodaeth i ofalwyr. Roedd Adferiad hefyd yn cydnabod nad oedd pob gofalwr yn gallu cael mynediad at wefannau. Dywedodd Adferiad, cyn y broses un pwynt mynediad, fod ganddo aelod o staff yn y Tîm Iechyd Meddwl Plant, lle gallent adnabod gofalwyr. Dywedodd Adferiad y cytunwyd yn ddiweddar y gallai dderbyn atgyfeiriadau'n uniongyrchol gan y Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol unwaith eto. Dywedodd Adferiad fod mentoriaid cymheiriaid Cyfle Cymru[1] hefyd yn cefnogi pobl o dan ofal sydd wedi bod yn gaeth i gyffuriau a'u bod wedi cael gwybod, pe baent yn dod i gysylltiad â theulu a oedd yn ei chael hi'n anodd, eu bod yn gallu atgyfeirio'r teulu at Adferiad, a allai ddarparu cymorth i'r teulu.

57. Dywedodd Adferiad fod stigma'n gysylltiedig â salwch meddwl yn aml, a bod gofalwyr yn teimlo'n fwy hyderus a chyfforddus wrth fynychu grwpiau cymorth i ofalwyr sy'n gofalu am bobl ag iechyd meddwl gwael, yn hytrach na grwpiau gofalwyr mwy cyffredinol. Dywedodd ei fod hefyd wedi ceisio sefydlu grwpiau ar gyfer gofalwyr sy'n gofalu am bobl sy'n camddefnyddio sylweddau, ond bod y gofalwyr hyn yn anodd iawn eu cyrraedd oherwydd yr anawsterau y maent yn eu hwynebu pe baent yn gadael y sawl sy'n derbyn gofal ar eu pen eu hunain.

58. Dywedodd Adferiad fod ei holl adnoddau ysgrifenedig ar gael yn rhwydd yn Gymraeg ac yn Saesneg a bod adnoddau mewn ieithoedd eraill ar gael hefyd. Dywedodd Adferiad fod ganddo staff a oedd yn gallu cwblhau asesiadau o anghenion gofalwyr yn Gymraeg, os oedd gofalwr yn gofyn am hynny. Dywedodd Adferiad, os oedd angen i ofalwr gael mynediad at ei wasanaeth mewn iaith ar wahân i Gymraeg neu Saesneg, ei fod yn gallu dod o hyd i wasanaethau cyfieithu. O ran anghenion ychwanegol, dywedodd Adferiad y byddai'r rhain yn debygol o gael eu nodi yn ystod asesiad o anghenion gofalwyr ac y byddai gwasanaethau eiriolaeth ar gael i gefnogi'r gofalwr.

59. Dywedodd Adferiad ei fod yn darparu gwybodaeth monitro contractau chwarterol i Gyngor Sir y Fflint. Dywedodd, er nad oedd fel arfer yn derbyn unrhyw adborth ar y wybodaeth a anfonwyd i'r Cyngor, ei fod wedi cael mwy o gyfarfodydd yn ddiweddar, gan fod rhai asesiadau o anghenion gofalwyr heb eu cwblhau i'r safon ofynnol ac roedd trafodaeth agored yn digwydd mewn perthynas â datrys y materion a symud ymlaen.

---

[1] Mae Cyfle Cymru yn wasanaeth sy'n helpu pobl sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau a/neu gyflyrau iechyd meddwl i gael gwaith, addysg neu hyfforddiant.

60. Darparodd yr ymgynghoriad gopïau o gyhoeddiadau sydd ar gael i ofalwyr i'r ymchwiliad.

## Tystiolaeth gan staff

61. Darparwyd manylion staff awdurdodau lleol sy'n darparu IAA ac sy'n cynnal asesiadau o anghenion gofalwyr gan bob un o'r Awdurdodau yr ymchwiliwyd iddynt. Gofynnwyd i staff o'r darparwyr gwasanaeth a gomisiynwyd, Gofalwyr Ceredigion, NEWCIS, Adferiad a Gwasanaeth Gofalwyr Castell-nedd Port Talbot, gymryd rhan yn yr ymchwiliad a darparu tystiolaeth. Gofynnwyd am y dystiolaeth drwy arolygon ar-lein. Gwnaed addasiad rhesymol[2] i ganiatáu i 1 aelod o staff ddarparu eu tystiolaeth ar lafar.

62. Mae'r tabl isod yn crynhoi nifer y staff a holwyd, a nifer yr ymatebion a dderbyniwyd:

| | Ardal Awdurdod Lleol | Nifer y staff a holwyd | Nifer yr ymatebion a dderbyniwyd (*) | Cyfradd ymateb (**) |
|---|---|---|---|---|
| **Staff Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth** | Caerffili | 16 | 5 | 31% |
| | Ceredigion | 22 | 19 | 86% |
| | Sir y Fflint | 10 | 7 | 70% |
| | Castell-nedd Port Talbot | 6 | 0 | 0% |
| **Staff lle mae asesiadau o anghenion gofalwyr yn rhan o'u rôl** | Caerffili | 168 | 92 (8) | 55% (50%) |
| | Ceredigion | 42 | 20 (2) | 48% (43%) |
| | Sir y Fflint | 14 | 9 | 64% |
| | Castell-nedd Port Talbot | 227 | 31 (11) | 14% (9%) |
| **Staff darparwr gwasanaeth wedi'i gomisiynu sy'n cwblhau asesiadau o anghenion gofalwyr** | Caerffili*** | Amh | Amh | Amh |
| | Ceredigion | 3 | 2 | 67% |
| | Sir y Fflint | 10 | 9[3] | 90% |
| | Castell-nedd Port Talbot | 4 | 3 | 75% |

* Ymatebion anghyflawn

** Cyfradd ymatebion i'r holiadur a gwblhawyd

*** Dim gwasanaethau wedi'u comisiynu

[2] Newid a wnaed i ddileu neu leihau anfantais sy'n gysylltiedig ag anabledd rhywun.

[3] Un ar absenoldeb mamolaeth

**Staff Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth**

63. Dywedodd ymatebwyr eu bod wedi cael hyfforddiant gan NEWCIS yn y gorffennol, ond roedd hyn wedi dod i ben ers pandemig COVID-19. Dywedasant fod cynlluniau i ailgychwyn yr hyfforddiant a ddarperir gan NEWCIS. Dywedodd ymatebwyr hefyd eu bod wedi derbyn sesiynau gwybodaeth am Daliadau Uniongyrchol ar gyfer gofalwyr. Teimlai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr fod yr hyfforddiant a gawsant yn eu cefnogi yn eu rolau. Dywedodd rhai ymatebwyr nad oeddent wedi cael unrhyw hyfforddiant ar asesu anghenion gofalwyr i'w cefnogi yn eu rolau ac yr hoffent gael mwy o hyfforddiant i'w galluogi i drafod asesiadau o anghenion gofalwyr gyda gofalwyr. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn gwybod ble i ddod o hyd i'r broses ar gyfer asesu anghenion gofalwyr ac yn dweud ei bod yn hygyrch iawn ac yn ddealladwy. Dywedodd cwpl o ymatebwyr nad oeddent yn gwybod ble i ddod o hyd i'r broses ar gyfer asesu anghenion gofalwyr.

64. Dywedodd ymatebwyr y gofynnwyd i ofalwyr beth oedd eu dewis iaith pan oeddent mewn cysylltiad â'r Cyngor am y tro cyntaf a bod siaradwyr Cymraeg yn cael eu cyfeirio at staff sy'n siarad Cymraeg. Dywedodd y rhan fwyaf o ymatebwyr y gallent ddefnyddio gwasanaethau cyfieithu Language Line pan nad Cymraeg na Saesneg oedd dewis iaith y gofalwr.

65. Dywedodd ymatebwyr y gallai'r Cyngor gefnogi pobl sydd ag anawsterau cyfathrebu drwy gynnig cyfarfodydd wyneb yn wyneb, naill ai yn eu swyddfeydd neu drwy ymweliadau cartref. Dywedodd ymatebwyr y gallai gofalwyr gyfathrebu â nhw hefyd drwy e-bost a neges destun neu roi caniatâd i rywun siarad ar eu rhan.

66. Nid oedd rhai ymatebwyr o'r farn bod rhwystrau i asesu anghenion gofalwyr. Teimlai ymatebwyr eraill nad oedd gofalwyr, yn aml iawn, yn ymwybodol o'u hawl i gael asesiad o anghenion gofalwr ac, weithiau, roedd gofalwyr yn teimlo'n euog neu'n teimlo embaras wrth ofyn am gymorth. Dywedodd un ymatebydd ei bod yn ymddangos bod gofalwyr yn cael eu trosglwyddo o un gwasanaeth i'r llall heb unrhyw broses glir.

**Staff asesu anghenion gofalwyr**

67. Dywedodd ymatebwyr eu bod naill ai wedi cael hyfforddiant mewn perthynas ag asesu anghenion gofalwyr nifer o flynyddoedd yn ôl neu nad oeddent wedi cael unrhyw hyfforddiant mewn perthynas ag asesu anghenion gofalwyr. Dywedodd ymatebwyr eu bod

wedi cael cyngor gan y rheolwyr i gyfeirio gofalwyr at NEWCIS er mwyn asesu eu hanghenion. Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr nad oedd yr hyfforddiant a gawsant yn eu helpu, nac yn eu cynorthwyo i ryw raddau, i gyflawni eu dyletswyddau mewn perthynas ag asesu anghenion gofalwyr.

68. Dangosodd yr ymatebwyr eu bod yn ymwybodol o hawl gofalwr i gael asesiad o'i anghenion drwy gyfeirio at NEWCIS. Dywedodd rhai ymatebwyr y byddai'r rhai sy'n gofalu am bobl nad ydynt yn hysbys i'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael eu cyfeirio at NEWCIS ond y byddai'r rhai sy'n gofalu am rywun sy'n hysbys i'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael eu hatgyfeirio at y Gweithiwr Cymdeithasol i gwblhau asesiad o anghenion gofalwr. Dywedodd rhai ymatebwyr eu bod wedi cael cais yn ddiweddar i gwblhau sgyrsiau Beth sy'n Bwysig gyda gofalwyr i sefydlu anghenion, er enghraifft, seibiant ac atgyfeirio at Panel, ac, ar gyfer anghenion eraill, i barhau i gyfeirio at NEWCIS. Dywedodd ychydig o ymatebwyr nad oeddent yn gwybod ble i ddod o hyd i'r broses ar gyfer asesu anghenion gofalwyr.

69. Dywedodd ymatebwyr y cynigiwyd i ofalwyr gwblhau'r asesiad yn eu dewis iaith, gydag aelodau staff Cymraeg ar gael i gefnogi'r gwasanaeth. Dywedasant eu bod hefyd yn gallu defnyddio gwasanaeth Language Line. Ar gyfer gofalwyr yr oedd eu dewis iaith yn rhywbeth ar wahân i Gymraeg a Saesneg, dywedodd ymatebwyr eu bod yn gallu cael mynediad at wasanaethau cyfieithu, gan gynnwys Iaith Arwyddion Prydain. Dywedodd dau ymatebydd y byddent yn defnyddio aelod o'r teulu neu ffrind i gyfieithu ar gyfer y gofalwr.

70. Er mwyn cefnogi gofalwyr sydd ag anawsterau cyfathrebu, dywedodd ymatebwyr y byddent yn cynnig asesiadau wyneb yn wyneb, yn defnyddio aelodau o'r teulu i gefnogi'r gofalwr, yn defnyddio gwasanaethau siarad a seinchwyddwyr. Dywedasant y byddent yn gofyn i wasanaethau eraill, er enghraifft, Therapi Lleferydd ac Iaith, a'r Tîm Synhwyraidd am gymorth, ac yn cysylltu â gwasanaethau megis y Gymdeithas Strôc i gael cymhorthion cyfathrebu. Dywedodd ymatebwyr y byddent hefyd yn gofyn am gefnogaeth gan aelodau o'r teulu neu Weithwyr Cymdeithasol eraill a oedd wedi gweithio gyda'r unigolyn. Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at ddefnyddio eiriolwr i helpu i oresgyn anawsterau cyfathrebu.

71. Ni wnaeth rhai ymatebwyr nodi unrhyw rwystrau sy'n atal gofalwyr rhag cael asesiad o'u hanghenion. Nododd ymatebwyr eraill y rhwystrau canlynol sy'n atal gofalwyr rhag cael asesiad o'u hanghenion:

- Gofalwyr ddim yn gweld eu hunain fel gofalwr.
- Gofalwyr ddim yn ymwybodol o'u hawliau.
- Gofalwyr eisiau cymorth i oresgyn argyfwng ar unwaith ac nid bob amser yn gweld yr angen am gefnogaeth iddyn nhw eu hunain.
- Efallai na fydd y gofalwr yn gallu siarad yn rhydd o flaen y sawl sy'n derbyn gofal, yn enwedig os oedd y person sy'n derbyn gofal wedi gwrthod cefnogaeth.
- Efallai na fydd yr unigolyn sy'n cael gofal yn gadael i'r gofalwr gysylltu â'r Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Oedi rhwng cyswllt cychwynnol a chyswllt gan dimau eraill – mae rhestr aros NEWCIS yn hir iawn.
- Cyfyngiadau amser gyda llwythi achosion a staffio.

## NEWCIS

72. Dywedodd ymatebwyr eu bod wedi derbyn hyfforddiant mewnol ar gwblhau asesiadau o anghenion gofalwyr. Dywedodd llawer fod ganddynt hefyd gymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol neu brofiad yn y maes. Teimlai'r rhan fwyaf fod yr hyfforddiant a gawsant wedi eu helpu i gyflawni dyletswyddau'n ymwneud ag asesu anghenion gofalwyr.

73. Roedd yr ymatebwyr yn dangos dealltwriaeth o bwrpas asesiad o anghenion gofalwr ac o'r broses asesu. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn gwybod ble i ddod o hyd i'r broses ac yn dweud ei bod yn hygyrch iawn ac yn ddealladwy. Dywedodd un ymatebydd nad oedd yn gwybod ble i ddod o hyd i'r broses.

74. Dywedodd ymatebwyr fod gan NEWCIS staff Cymraeg a oedd yn gallu cwblhau asesiad o anghenion gofalwyr gyda gofalwyr yr oedd Cymraeg yn ddewis iaith ganddynt. Dywedodd ymatebwyr y gallent gael gafael ar gyfieithwyr, gan gynnwys Iaith Arwyddion Prydain, a gwasanaethau cyfieithu os nad Cymraeg na Saesneg oedd dewis iaith y gofalwr. Dywedodd ymatebwyr fod ganddynt daflenni dwyieithog hefyd a'u bod yn gallu cael eu cyfieithu i ieithoedd eraill os oedd angen.

75. O ran anawsterau cyfathrebu, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn canolbwyntio ar argaeledd gwasanaethau cyfieithu iaith ac yn cynnig ffyrdd gwahanol o gyfathrebu, er enghraifft, wyneb yn wyneb, galwadau fideo, galwadau ffôn a negeseuon testun. Dywedodd rhai ymatebwyr fod unrhyw anghenion cyfathrebu neu'r angen am gymorth eiriolaeth wedi'u

hamlinellu ar y ffurflen atgyfeirio.  Dywedasant hefyd yr anfonwyd holiadur at y gofalwyr i'w lenwi cyn asesiad i'w galluogi i hel eu meddyliau, a'i fod yn gyfle i dynnu sylw at unrhyw anawsterau cyfathrebu.  Dywedodd un ymatebydd fod asesiadau gofalwyr ifanc yn cael eu gwneud yn "hwyl", drwy ddefnyddio gemau neu dynnu lluniau, er mwyn helpu i gyfathrebu'n effeithiol.  Dywedodd ymatebwyr eraill y gallent gynnig dogfennau print bras a chynnig gwasanaethau eiriolaeth.  Dywedodd un ymatebydd nad oedd yn ymwybodol o'r mesurau sydd ar waith i gefnogi defnyddwyr ag anawsterau cyfathrebu.

76. Dywedodd nifer o ymatebwyr nad oedd yna unrhyw rwystrau i asesu anghenion gofalwyr.  Nododd ymatebwyr eraill fod diffyg cydsyniad, naill ai gan y person ifanc neu'r rhiant, yn rhwystr.  Dywedodd llawer o'r ymatebwyr y gallai fod yn anodd adnabod gofalwyr ifanc, gan nad oeddent yn ystyried eu hunain yn ofalwr ac nad oeddent yn cydnabod eu bod yn cyflawni rôl ofalu.  Roedd rhwystrau eraill yn cynnwys anawsterau a achoswyd gan orfod dibynnu ar riant a oedd hefyd yn derbyn gofal, ac y gallai hyn achosi rhwystrau i ymgysylltu â'r gwasanaeth.  Dywedodd un ymatebydd nad oedd yr asesiad rhanbarthol yn hawdd ei ddefnyddio ac roedd wedi ceisio mabwysiadu ffyrdd gwell o gael sgyrsiau Beth sy'n Bwysig.

77. Dywedodd rhai ymatebwyr fod cyfleoedd ar gyfer atgyfeirio gofalwyr at NEWCIS weithiau'n cael eu colli gan atgyfeirwyr allanol ac y gallai gofalwyr boeni am y defnydd o'r gair 'asesiad'.  Dywedodd ymatebwyr fod rhai gofalwyr yn cael eu camarwain am y cymorth sydd ar gael a'u bod yn amharod i gael asesiad o'u hanghenion.  Dywedodd rhai nad oedd gofalwyr yn aml yn adnabod eu hunain fel gofalwyr.  Roedd un ymatebydd o'r farn bod hyfforddi staff yn rhwystr i ofalwyr gael asesiad o'u hanghenion ac nad oedd gofalwyr yn aml yn deall eu hawliau.

78. Mewn sylwadau eraill, dywedodd ymatebwyr nad yn yr ysbyty yr oedd yr amser na'r lle i gynnig asesiad o anghenion gofalwr, oherwydd pa mor acíwt oedd y sefyllfa, ond roeddent yn cydnabod ei bod yn gyfle i roi gwybod i ofalwyr am eu hawliau.  Roeddent yn tynnu sylw at yr angen i'r Gweithiwr Cymdeithasol a NEWCIS weithio'n agosach gan fod dyblygu'n digwydd – roeddent o'r farn y byddai hyn yn darparu gwasanaeth mwy cynhwysfawr i ofalwyr ac i bobl sy'n derbyn gofal.  Dywedodd ymatebwyr y byddent yn elwa o hyfforddiant parhaus, gan gynnwys mewn perthynas â defnyddio Taliadau Uniongyrchol i gefnogi gofalwyr.  Dywedasant ei bod yn aml yn anodd nodi'r hyn a oedd yn ddymuniad a'r hyn a oedd yn angen, ac roedd angen rhagor o eglurder.  Cododd ymatebwyr bryderon hefyd am y diffyg darpariaeth ar gyfer y rhai sy'n derbyn gofal ac oedi wrth asesu

eu hanghenion gofal a chymorth a achosodd drallod i ofalwyr a oedd yn anodd ei oresgyn gydag asesiad o anghenion gofalwr.

## Adferiad

79. Dywedodd un ymatebydd o Adferiad nad oedd wedi cael unrhyw hyfforddiant ar gyfer ei rôl o ran cwblhau asesiadau o anghenion gofalwyr, a dywedwyd wrtho am edrych ar asesiadau a gwblhawyd yn flaenorol. Dywedasant nad oedd yr asesiadau a gwblhawyd yn flaenorol yn ymddangos yn ddigonol, gan nad oedd digon o fanylion. Dywedasant eu bod wedi dod o hyd i hyfforddiant addas ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru a'u bod wedi gweithio drwyddo ac wedi addysgu eu hunain. Dywedodd yr ymatebydd eu bod wedi addasu'r ffurflen asesu drwy ei seilio ar y wybodaeth a ddarparwyd ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru. Dywedodd yr ymatebydd y byddai'n rhannu gwybodaeth â gofalwyr am eu hawl i gael asesiad ac yn darparu opsiynau ynghylch sut a phryd yr hoffent gael eu hasesu, yn gofyn beth yw eu dewis iaith ac yn cynnig iddynt fynychu gydag eiriolwr neu aelod o'r teulu. Dywedodd yr ymatebydd bod ganddynt staff Cymraeg eu hiaith ar gael os mai Cymraeg oedd dewis iaith y gofalwr ac y gallent gael mynediad at wasanaethau cyfieithu ar gyfer gofalwyr nad Cymraeg na Saesneg oedd eu dewis iaith, gan gynnwys Iaith Arwyddion Prydain.

80. Dywedodd yr ymatebydd eu bod o'r farn bod amser yn rhwystr i ofalwyr gael asesiad o'u hanghenion gan nad oeddent yn aml yn gallu gadael y person sy'n derbyn gofal neu nad oedd ganddynt neb arall i ddarparu'r gofal. I ofalwyr sy'n gweithio, yn aml nid oedd ganddynt yr amser i gael asesiad o'u hanghenion, er eu bod yn awyddus i gael help a chefnogaeth. Dywedodd yr ymatebwyr eu bod yn teimlo bod asesiadau yn Adferiad yn dda a'u bod yn cynnwys llawer o fanylion, gyda gofalwyr wedi dweud nad oeddent wedi cael asesiad mor drylwyr o'r blaen a'u bod yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt.

## Tystiolaeth gan y rheini sydd â phrofiad bywyd

### Gofalwr H – Sir y Fflint

81. Mae Gofalwr H yn gofalu am ei phlentyn a rhoddodd y gorau i'w swydd oherwydd ei rôl gofalu a arweiniodd at bwysau ariannol ar y teulu. Dywedodd Gofalwr H nad eglurwyd iddi'n glir fod ganddi'r hawl i gael asesiad o anghenion gofalwr. Dywedodd Gofalwr H, pan ddaeth Gwasanaethau Cymdeithasol yn gysylltiedig â'i phlentyn, dywedwyd wrthi am NEWCIS, gwasanaeth gwych sy'n cefnogi gofalwyr di-dâl. Dywedodd Gofalwr H fod gan

NEWCIS grŵp cymorth rhagorol i rieni sy'n ofalwyr ac, ar yr amod bod gofalwr yn gwybod am NEWCIS, bydd hefyd yn gwybod am y grwpiau cymorth sydd ar gael.

82. Dywedodd Gofalwr H ei bod wedi hunan-atgyfeirio at NEWCIS a'i bod yn croesawu'r holl gefnogaeth a chymorth y gallai eu cael gan ei fod yn gyfnod trawmatig iawn iddi. Dywedodd Gofalwr H fod NEWCIS wedi cael sgwrs "Beth sy'n bwysig" gyda hi, ond nid eglurwyd mai dyma oedd ei hasesiad o anghenion gofalwr. Dywedodd Gofalwr H pan ofynnodd i'w Gweithiwr Cymdeithasol am asesiad o anghenion gofalwr, y dywedwyd wrthi fod un eisoes wedi'i gwblhau gan NEWCIS.

83. Dywedodd Gofalwr H nad oedd y Cyngor erioed wedi asesu ei hanghenion fel gofalwr a'i bod yn gwybod am ofalwyr eraill yn yr un sefyllfa. Dywedodd Gofalwr H nad oedd asesiad NEWCIS yn teimlo fel asesiad trylwyr a'i fod i raddau helaeth wedi digwydd yn y foment. Dywedodd Gofalwr H hefyd, oni bai fod y gofalwr yn cysylltu â NEWCIS, nad oedd NEWCIS wedi cysylltu â'r gofalwr, yn wahanol i'r asesiadau statudol a ddarparwyd i'w phlentyn. Cydnabu Gofalwr H fod NEWCIS yn elusen gydag adnoddau cyfyngedig, yn hytrach na sefydliad statudol.

84. Dywedodd Gofalwr H ei bod wedi cael ei hasesu, ar y ddau achlysur, o fewn pythefnos i gysylltu â NEWCIS a'i bod wedi cael cymorth ariannol drwy grantiau bach, a oedd o fudd enfawr. Fodd bynnag, dywedodd Gofalwr H, ar ôl i'r grant gael ei wario, ei fod wedi mynd. Dywedodd Gofalwr H ei bod wedi cysylltu â'r Cyngor ar gyfer Taliadau Uniongyrchol ar ei phen ei hun fel gofalwr a chytunodd staff i ymchwilio i'r mater, ond ddigwyddodd dim byd yn y pen draw.

85. Dywedodd Gofalwr H fod staff NEWCIS yn fedrus iawn yn eu gwaith, ond nad oedd yn teimlo bod y cymorth a ddarparwyd yn debyg i'r cymorth a gafodd gan Weithiwr Cymdeithasol ei phlentyn. Cymharodd Gofalwr H y cymorth a ddarparwyd gan NEWCIS â "rhoi plastr" dros sgwrs a ddechreuwyd gan y gofalwr, heb unrhyw ailasesiad wedi'i gynllunio.

86. Dywedodd Gofalwr H fod yr asesiadau wedi'u cwblhau yn ei dewis iaith, ond na allai gofio cael cynnig cefnogaeth gan eiriolwr. Nid oedd Gofalwr H yn cofio cael copi o'i hasesiad.

87. Dywedodd Gofalwr H y byddai'n hoffi cael proses fwy cadarn a chlir, gyda gwybodaeth gliriach gan y Gwasanaethau Cymdeithasol am y broses a'r hyn y gellid ei ddisgwyl. Dywedodd Gofalwr H ei bod yn ffodus i dderbyn Taliadau Uniongyrchol fel rhan o Gynllun

Gofal a Chymorth ei phlentyn gan fod y broses yn heriol. Roedd Gofalwr H o'r farn mai dim ond am fod ei phlentyn yn hysbys i'r Gwasanaethau Cymdeithasol y maent yn cael y cymorth a gânt. Roedd Gofalwr H o'r farn na fyddai llawer o deuluoedd yn ymwybodol o'r gwasanaethau a oedd ar gael, heb wybod ble i droi am gymorth ac yn ofni, heb gyfiawnhad, y Gwasanaethau Cymdeithasol. Dywedodd Gofalwr H, oni bai fod unigolyn yn neidio i fyny ac i lawr yn sgrechian, neu fod ei sefyllfa'n argyfwng, ei fod yn cael ei adael ar ei ben ei hun pan ddylai gwaith ataliol i gefnogi gofalwyr, gan sicrhau bod eu llesiant a'u hiechyd meddwl yn sefydlog a'u bod yn gallu darparu gofal, atal y sefyllfa rhag cyrraedd cyflwr o argyfwng.

**Gofalwr I – Sir y Fflint**

88. Mae Gofalwr I yn gofalu am blentyn, plentyn sy'n oedolion a rhiant. Hunan-atgyfeiriodd Gofalwr I at NEWCIS ar ôl cael ei chyfeirio gan dîm Un Pwynt Mynediad y Cyngor ac ymchwilio i wefan NEWCIS a oedd yn nodi ei hawl i gael asesiad o anghenion gofalwr. Gofynnodd Gofalwr I am asesiad gan fod ei rôl gofalu yn dechrau effeithio ar ei llesiant.

89. Dywedodd Gofalwr I fod yr asesiad wedi'i gwblhau o fewn ychydig wythnosau i'w chais, a chafodd wybodaeth am Carers UK, grwpiau cymorth NEWCIS, digwyddiadau holistaidd a llesiant, gweithdai a hyfforddiant, egwyliau, grantiau a seibiant.

90. Dywedodd Gofalwr I fod yr asesiad wedi ei helpu i nodi camau y gellid eu cymryd i leddfu straen ac ailwerthuso ei swydd, a oedd hefyd yn cyfrannu at ei straen. Dywedodd Gofalwr I fod y cymorth a ddarparwyd gan NEWCIS, gan gynnwys galwadau rheolaidd, wedi ei helpu i reoli ei straen, cysylltu ag ysgol ei phlentyn a chymdeithasu, a bod hyn wedi gwneud iddi deimlo'n llai ynysig yn gymdeithasol. Dywedodd Gofalwr I fod y gwasanaeth gan NEWCIS yn fwy cefnogol nag yr oedd wedi'i ddychmygu, a'i fod yn gwneud iddi deimlo'n hyderus i ymdopi yn ei rôl gofalu a theimlo'n dawel ei meddwl y gallai fanteisio ar ei gymorth yn y dyfodol. Dywedodd Gofalwr I fod y cymorth a ddarparwyd "yn bendant" yn diwallu ei hanghenion a nodwyd.

91. Dywedodd Gofalwr I fod ei hanghenion wedi cael eu hasesu fel unigolyn a bod yr asesiad wedi cael ei gwblhau yn ei dewis iaith. Dywedodd Gofalwr I ei bod wedi cael cynnig copi o'i hasesiad ond nad oedd yn teimlo ei fod yn angenrheidiol. Dywedodd Gofalwr I fod ei hanghenion wedi cael eu hailasesu fel rhan o'i chynllun cymorth a bod ei chanlyniadau wedi cael eu bodloni.

**Gofalwr J – Sir y Fflint**

92. Mae Gofalwr J yn gofalu am blentyn. Eglurodd Gofalwr J ei bod wedi cael asesiad o anghenion gofalwr dros y ffôn o fewn tuag wythnos i ofyn am un. Dywedodd Gofalwr J ei bod wedi cael gwybodaeth gyffredinol gan gynnwys cyngor, rhifau ffôn defnyddiol, gweithgareddau a chyfarfodydd. Dywedodd Gofalwr J ei bod wedi cael cymorth parhaus gan NEWCIS drwy gyfarfodydd galw heibio wythnosol, galwadau ffôn a grantiau sy'n diwallu ei hanghenion. Dywedodd Gofalwr J nad yw ei hanghenion wedi cael eu hailasesu gan eu bod yn parhau yr un fath.

93. Dywedodd Gofalwr J fod yr asesiad wedi cael ei gynnal yn ei dewis iaith a'i bod wedi cael cynnig yr opsiwn o eiriolaeth. Rhoddwyd neu cynigiwyd copi o'i hasesiad i Ofalwr I.

94. Teimlai Gofalwr J fod canlyniad ei hasesiad yn gadarnhaol a bod NEWCIS yn "ffantastig". Dywedodd Gofalwr J fod yr asesiad wedi cael effaith enfawr ar ei rôl gofalu, ac na fyddai'n newid dim am y broses asesu.

**Gofalwr K – Sir y Fflint**

95. Mae Gofalwr K yn gofalu am ei gŵr y mae ei anghenion gofal wedi cynyddu wrth iddo fynd yn hŷn.

96. Dywedodd Gofalwr K nad oedd yn gwybod am ei hawl i gael asesiad o anghenion gofalwr. Dywedodd fod eu hawdurdod iechyd lleol wedi gofyn iddi gofrestru fel gofalwr ei gŵr ac, yn sgil hyn, gofynnodd Gwasanaethau Cymdeithasol iddi a oedd unrhyw beth y gallent ei wneud i'w cefnogi. Dywedodd Gofalwr K fod Gwasanaethau Cymdeithasol, 5 neu 6 mlynedd yn ôl, wedi awgrymu gofal seibiant i'w gŵr. Gweithiodd yn dda i ddechrau, ond wedyn nid oedd yn diwallu anghenion ei gŵr, ac oherwydd hyn ni allai ymlacio a chymryd amser iddi hi ei hun pan oedd yntau'n mynychu gofal seibiant. Dywedodd Gofalwr K nad yw wedi cael unrhyw seibiant ers hynny.

97. Dywedodd Gofalwr K mai ychydig iawn o wybodaeth a roddwyd iddi am yr asesiad. Teimlai'r Gwasanaethau Cymdeithasol y byddai pecyn gofal o gymorth i Ofalwr J, ond gwrthodwyd y pecyn gofal gan ei gŵr. Nid oedd Gofalwr K yn teimlo bod unrhyw gymorth wedi'i anelu'n benodol ati yn ei rôl gofalu, ond roedd Gwasanaethau Cymdeithasol eisiau helpu'r ddau ohonynt. Dywedodd nad oedd yn ymwybodol ei bod wedi cael asesiad yn ei rhinwedd ei hun. Dywedodd Gofalwr K nad oedd asesiad go iawn, dim ond sgwrs ar y ffôn

am yr hyn y gellid ei gynnig.  Ni welodd ffurflen yn cael ei llenwi ac ni chafodd gopi o'r asesiad wedi'i gwblhau.

98. Dywedodd Gofalwr K fod Gwasanaethau Canolfan Ddydd hefyd yn cael eu cynnig ond nad oeddent yn diwallu anghenion ei gŵr.  Esboniodd Gofalwr K fod y Cyngor wedi cynnig 3 awr o Daliadau Uniongyrchol am "wasanaeth eistedd gyda phobl", ond nad oedd llawer i'w wneud yn yr ardal leol ac y byddai'n cymryd gormod o amser i Ofalwr J wneud unrhyw beth ystyrlon. Byddai Gofalwr K hefyd yn poeni am ddychwelyd ar amser ac ni fyddai'n ymlacio. Dywedodd Gofalwr K y byddai ateb mwy hyblyg wedi bod yn fuddiol iddi ei ddefnyddio pan fo angen, ar sail ad hoc.

99. Dywedodd Gofalwr K mai'r tro cyntaf iddi glywed am y grant ar gyfer adweitheg a nodwyd ar y ffurflen oedd ar ôl iddi gael copi o'i hasesiad cyn ei chyfweliad,. Dywedodd Gofalwr K ei fod yn rhywbeth yr oedd am ei wneud ond bod angen iddi drefnu rhywun i ofalu am ei gŵr er mwyn rhoi amser iddi fynd.

100. Dywedodd Gofalwr K nad oedd yr asesiad wedi cael unrhyw effaith ar ei rôl gofalu; ei bod wedi bod yn hyfryd siarad â rhywun, ond nad oedd wedi datrys y broblem.  Teimlai Gofalwr K nad oedd yn werth ei wneud gan y byddai ychydig oriau o ymlacio yn gwneud iddi deimlo'n euog petai'n dychwelyd adref, ac nad oedd ei gŵr yn hapus, a allai waethygu ei gyflyrau meddygol.

101. Mynegodd Gofalwr K bryder ynghylch mynd i'w hapwyntiadau meddygol ei hun, gan nad oedd hi bob amser yn gallu dibynnu ar gymdogion i helpu.  Dywedodd Gofalwr K ei bod yn pwyso a mesur a ddylai ganslo apwyntiadau meddygol a fyddai'n cael eu trefnu ar ei chyfer.

102. Dywedodd Gofalwr K fod yr asesiadau wedi'u cwblhau yn ei dewis iaith ond na allai gofio cael cynnig cefnogaeth gan wasanaeth eirioli.

103. Dywedodd Gofalwr K ei bod eisiau "bod yn hapus" a'i bod yn anodd dweud a ellid bod wedi gwneud unrhyw beth yn wahanol oherwydd, er gwaethaf popeth y mae wedi'i ddweud wrth y Gwasanaethau Cymdeithasol dros y blynyddoedd, does dim byd wedi datrys y broblem.  Roedd Gofalwr K yn cydnabod bod adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol dan bwysau eithriadol, gan ddweud "ond mae bod yn ofalwr yn anodd".

**Gofalwr L – Sir y Fflint**

104. Mae Gofalwr L, sy'n anabl, yn gofalu am ei phlant anabl fel rhiant sengl. Clywodd Gofalwr L am ei hawl i gael asesiad o anghenion gofalwr ar ôl cael chwalfa feddyliol a chodwyd pryderon diogelu. Dywedodd Gofalwr L fod staff Hyb Sir y Fflint yn drylwyr iawn ac yn ymarferol a'u bod wedi gwneud nifer o atgyfeiriadau ar gyfer cymorth a chefnogaeth. Dywedodd Gofalwr L fod nifer o sefydliadau wedi cynnig cymorth iddi o fewn 3 mis. Dywedodd Gofalwr L nad yw aelodau o'r cyhoedd wir yn gwybod pa gymorth sydd ar gael nes iddynt gyrraedd pwynt lle nad ydynt yn gallu ymdopi. Roedd Gofalwr L o'r farn y dylai gofalwyr allu manteisio ar y gwasanaethau sydd ar gael heb orfod cyrraedd pwynt o'r fath.

105. Dywedodd Gofalwr L fod staff yn NEWCIS wedi cysylltu â hi ac wedi cwblhau'r asesiad o anghenion gofalwr o fewn wythnos. Dywedodd fod gweithiwr cymorth hyfryd wedi'i neilltuo iddi. Dywedodd Gofalwr L ei bod wedi cael rhywfaint o therapi, a dyma'r peth gorau iddi ei gael erioed. Dywedodd ei fod wedi newid ei bywyd. Dywedodd Gofalwr L fod y teulu wedi cael aelodaeth i'r sw sy'n golygu ei bod yn gallu mynd yno i dreulio amser gwerthfawr gyda'i phlant. Dywedodd Gofalwr L fod ganddi feddwl mawr o NEWCIS a'i staff ac na allai ddiolch digon iddynt. Dywedodd Gofalwr L, pe na bai NEWCIS wedi ymddangos pan wnaeth, fod yn gas ganddi feddwl beth fyddai wedi digwydd.

106. Dywedodd Gofalwr L fod ganddi aelodau o deulu estynedig sy'n gallu ei helpu gyda gwaith tŷ er mwyn iddi allu gofalu am ei phlant. Dywedodd fod NEWCIS yn cynnig cymorth a chefnogaeth i'w theulu estynedig, gan eu bod hefyd yn darparu gofal i Ofalwr K.

107. Yn ôl Gofalwr L, cafodd yr asesiad ei gynnal yn ei dewis iaith. Nid oedd yn credu ei bod wedi cael cynnig cymorth eiriolwr ond nid oedd yn credu bod angen un arni gan fod staff NEWCIS wedi esbonio pethau'n dda.

108. Dywedodd Gofalwr L na chafodd gopi o'i hasesiad. Dywedodd fod ei hanghenion wedi cael eu hailasesu yn dilyn atgyfeiriad pellach a nodwyd rhagor o ffynonellau cymorth. Dywedodd Gofalwr L y gallai gael cyllid ar gyfer gofal plant i roi seibiant iddi hi neu gyllid ar gyfer diwrnodau allan i'r teulu er mwyn i'w theulu estynedig allu mynd â'i phlant allan am y dydd i roi seibiant iddi. Dywedodd Gofalwr L ei bod wedi dewis y cyllid er mwyn i'w theulu estynedig fynd â'i phlant allan, a oedd wedi bod yn help eithriadol. Dywedodd Gofalwr L fod NEWCIS hefyd yn ei chefnogi i wneud cais am Daliadau Uniongyrchol i gyflogi Cynorthwyydd Personol i leihau baich y cartref a chaniatáu iddi ganolbwyntio ar ei phlant.

109. Dywedodd Gofalwr L fod NEWCIS yn cefnogi cynifer o deuluoedd yn ardal Sir y Fflint, ond roedd yn drueni bod yn rhaid i ofalwyr gyrraedd pwynt argyfwng cyn bod cymorth yn cael ei gynnig. Teimlai y dylid gweiddi am y cymorth sydd ar gael yn y gymuned leol. Roedd hi'n cydnabod bod y cymorth yn dibynnu ar y cyllid a oedd ar gael, ond roedd hi'n teimlo y byddai'r rhai mwyaf anghenus yn gwybod bod cymorth ar gael iddynt.

**Gofalwr M – Sir y Fflint**

110. Mae Gofalwr M yn gofalu am ei phlant anabl. Dywedodd Gofalwr M ei bod wedi cael ei hatgyfeirio at NEWCIS yn 2020 gan Wasanaeth Awtistiaeth Integredig Gogledd Cymru. Dywedodd ei bod wedi cysylltu â NEWCIS i ofyn a oedd wedi derbyn ei hatgyfeiriad a dywedwyd wrthi ei bod ar restr aros i gael Swyddog Llesiant dynodedig. Dywedodd Gofalwr M ei bod wedi cael gwybod mewn ebost y byddai rhywun yn cysylltu â hi, ac y byddai asesiad yn cael ei gwblhau er mwyn iddi hi a'i swyddog nodi sut gallai NEWCIS ei chefnogi hi orau. Dywedodd nad oedd hi'n sylweddoli mai atgyfeiriad ydoedd ar gyfer asesiad o anghenion gofalwr yn unol â'i hawl gan ei bod hi'n credu bod NEWCIS yn elusen cymorth i ofalwyr, ac mai sgwrs ydoedd ynglŷn ag ymuno â'r elusen. Dywedodd Gofalwr M ei bod wedi cael cynnig talebau i'w defnyddio ar gyfer gwyliau mewn gwesty ond, gan nad oedd ganddi ofal seibiant ar gyfer ei phlant, nid oedd yn gallu eu defnyddio ac roedd hi'n gallu fforddio noson i ffwrdd petai'n gallu. Dywedodd felly na dderbyniodd y cynnig. Dywedodd Gofalwr M ei bod wedi cael taleb Netflix.

111. Dywedodd Gofalwr M ei bod wedi clywed gyntaf am ei hawl i gael asesiad llawn o anghenion gofalwr ym mis Mehefin 2022 drwy grŵp cefnogi rhieni ar Facebook a chysylltodd â Chyngor Sir y Fflint yn uniongyrchol i ofyn am asesiad, gan nad oedd yn deall mai NEWCIS oedd yn darparu'r asesiadau o anghenion gofalwr ar ran y Cyngor. Dywedodd Gofalwr M ei bod hefyd wedi cysylltu â NEWCIS a'u cynghori bod ei rôl gofalu wedi cynyddu, a'i bod am gael sgwrs gyda nhw ynghylch cymorth. Dywedodd Gofalwr M ei bod wedi cael clywed eu bod nawr yn darparu cymorth 'Pontio'r Bwlch' a oedd yn golygu rhoi cyllid iddi am 6 mis i'w ddefnyddio gydag un o ddarparwyr NEWCIS a restrir yn eu taflen Pontio'r Bwlch. Dywedodd Gofalwr M nad oedd yn ddefnyddiol bod NEWCIS yn cyfeirio at eu hasesiadau mewn gohebiaeth fel 'asesiadau llesiant' gyda 'Swyddog Llesiant' neu gymorth o dan 'Pontio'r Bwlch' yn hytrach na chyfeirio atynt fel asesiadau statudol.

112. Dywedodd Gofalwr M ei bod hi, ar adeg ei chyswllt â NEWCIS, yn teimlo bod y galwadau ffôn yn ddefnyddiol, ac roedd yn braf cael rhywfaint o gymorth a chyllid tuag at

ddarparwyr ar y cynllun Pontio'r Bwlch. Dywedodd Gofalwr M ei bod bellach yn ymwybodol o'i hawliau, ei bod yn siomedig gyda chanlyniad ei hasesiadau gan nad oedd hi'n gallu manteisio ar asesiad llawn na rhoi cynllun cymorth ar waith. Dywedodd Gofalwr M nad oedd yn credu bod ei hanghenion wedi'u nodi'n glir yn ystod ei hasesiadau na bod ei hanghenion wedi cael eu diwallu wedyn. Dywedodd ei bod yn cofio mynegi bod gwir angen seibiant arni, ond nad oedd hyn yn opsiwn gan NEWCIS. Dywedodd ei bod wedi cysylltu â rhai o ddarparwyr Pontio'r Bwlch a oedd yn cynnig rhywfaint o ofal plant, ond nid oedd ganddynt le ac nid oedd y cyllid a gafodd yn ddigon i'w galluogi i ddefnyddio'r gwasanaeth ar gyfer ei phlant. Dywedodd Gofalwr M mai'r unig wasanaeth y gallai ei ddefnyddio oedd gwasanaeth glanhau. Dywedodd fod y gwasanaeth hwn yn araf i gychwyn a'i fod wedi gweithio'n dda am gyfnod nes iddynt ddechrau peidio â dod o gwbl neu beidio â dweud wrthi faint o'r gloch y byddent yn cyrraedd. Dywedodd Gofalwr M nad oedd darparwyr addas ar gyfer gwasanaethau gofal seibiant na glanhau erbyn mis Gorffennaf 2022 a'r unig opsiwn addas oedd therapi holistaidd. Dywedodd fod mynychu'r sesiynau therapi holistaidd yn anodd ac yn achosi straen gan fod yn rhaid iddi ddod o hyd i rywun i ofalu am ei phlant anabl. Dywedodd Gofalwr M fod NEWCIS wedi rhoi'r gorau i ddefnyddio'r therapi holistaidd fel darparwr Pontio'r Bwlch. Dywedodd Gofalwr M ei bod yn ddiolchgar am y cyllid a gafodd a chydnabu fod y gwasanaethau glanhau a'r triniaethau holistaidd yn ddefnyddiol ar y cyfan, ond y cymorth yr oedd arni ei angen oedd seibiant o'i rôl gofalu, ac nid oedd hyn ar gael yn ôl pob golwg. Dywedodd fod angen llawer o reolaeth ar y gwasanaeth glanhau, a bod y therapi holistaidd yn anodd i'w gyrraedd.

113. Dywedodd Gofalwr M fod ei hasesiadau wedi cael eu cwblhau dros y ffôn o fewn ychydig wythnosau i rywun ei hatgyfeirio a chysylltu â hi. Dywedodd fod yr asesiadau wedi cael eu cynnal yn ei dewis iaith. Dywedodd Gofalwr M na allai gofio cael cynnig eiriolaeth, ond na fyddai wedi bod yn rhywbeth yr oedd ei angen arni. Dywedodd Gofalwr M na chafodd copi o'i hasesiad o anghenion gofalwr ei roi na'i gynnig iddi.

114. Dywedodd Gofalwr M ei bod yn dal i deimlo nad oedd ganddi asesiad iawn o anghenion gofalwr na bod ganddi gynllun cymorth ar waith. Dywedodd nad oedd y broses yn Sir y Fflint yn glir ac roedd defnyddio NEWCIS i gynnal asesiadau yn ddryslyd gan mai elusen ydyn nhw. Dywedodd Gofalwr M nad oedd yn meddwl ei bod yn cael y cymorth iawn. Dywedodd Gofalwr M ei bod wedi ysgrifennu at Gyngor Sir y Fflint yn 2022 yn gofyn am asesiadau ar gyfer ei phlant o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ac asesiad o anghenion gofalwr er mwyn i'w hanghenion hi gael eu hystyried o ran seibiant. Dywedodd Gofalwr M fod y Cyngor wedi ymateb:

“Rydw i wedi gwneud ymholiadau gyda fy nghydweithwyr ac, yn ôl yr hyn rwy’n ei ddeall, mae NEWCIS yn cwblhau’r holl asesiadau o ofalwyr o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ar ein rhan ac yn atgyfeirio’r person/pobl sy’n derbyn gofal at Wasanaethau Cymdeithasol yn ôl yr angen.

Os ydych chi’n gofyn am asesiad gofalwr ychwanegol ynghylch cael gafael ar ofal seibiant, mae hyn yn rhywbeth y gallwch ei drafod gyda gweithiwr cymdeithasol eich plentyn gan fod unrhyw seibiant yn cael ei gofnodi yn erbyn y person sy’n cael gofal a chymorth gan y gwasanaeth. Fel arall, byddwn yn eich atgyfeirio’n ôl at NEWCIS i gael asesiad a chymorth pellach.”

115. Dywedodd Gofalwr M ei bod wedyn wedi cysylltu â NEWCIS i ofyn am gael trefnu asesiad statudol a chafodd wybod mai’r asesiad llesiant oedd yr asesiad statudol ac y byddai’n rhaid iddi gysylltu â Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch seibiant gan nad oedd NEWCIS yn ymwneud â gofal seibiant. Dywedodd Gofalwr M nad oedd wedyn yn gallu bwrw ymlaen â hyn am gyfnod gan ei bod yn sâl ac roedd hi’n canolbwyntio ar fynd ar drywydd asesiadau ar gyfer ei phlant gyda Gwasanaethau Cymdeithasol.

116. Dywedodd Gofalwr M fod Gwasanaethau Cymdeithasol, ym mis Hydref 2023, wedi rhoi taflen Taliadau Uniongyrchol iddi mewn perthynas â Thaliadau Uniongyrchol ar gyfer ei phlant. Dywedodd fod y daflen yn cyfeirio at Daliadau Uniongyrchol i Ofalwyr i gefnogi eu hanghenion. Dywedodd Gofalwr M ei bod wedi cysylltu â NEWCIS eto i drafod Taliadau Uniongyrchol ar gyfer seibiant a dywedwyd wrthi nad oedd NEWCIS yn delio â seibiant drwy Daliadau Uniongyrchol, dim ond cymorth drwy eu darparwyr. Dywedodd Gofalwr M fod NEWCIS wedi dweud wrthi am gysylltu â Gwasanaethau Cymdeithasol.

117. Dywedodd Gofalwr M fod ei Chynorthwyydd Gwasanaethau Plant wedi gwneud cais am Daliadau Uniongyrchol i Ofalwyr i roi seibiant iddi. Dywedodd fod hyn wedi’i wrthod ar y sail bod angen iddi wneud cais i’r Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion. Dywedodd Gofalwr M ei bod wedyn wedi llenwi holiadur ‘Beth sy’n Bwysig’ a anfonwyd ati gan y Gwasanaethau Plant ar gyfer cais am Daliad Uniongyrchol i Ofalwyr i’w gyflwyno i’r Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion. Dywedodd ei bod wedyn wedi cael gwybod bod y cais wedi cael ei drosglwyddo o’r Gwasanaethau Oedolion i’r Gwasanaethau Plant. Dywedodd Gofalwr M ei bod wedi cael gwybod gan y gwasanaeth SPOA i Oedolion mai dim ond mewn perthynas ag achosion ei phlant y byddai unrhyw geisiadau am seibiant i ofalwr yn

cael eu hystyried.  Dywedodd Gofalwr M fod y Cynorthwyydd Gwasanaethau Plant nawr yn ceisio canfod sut i fwrw ymlaen â'i chais.

118. Dywedodd Gofalwr M ei bod hefyd wedi siarad â NEWCIS ym mis Ionawr 2024 i ofyn am asesiad Pontio'r Bwlch pellach gan fod ei chyllid wedi dod i ben.  Dywedodd ei bod wedi cael gwybod bod y cymorth a gynigir gan NEWCIS, a'i ddarparwyr, wedi'i anelu at gefnogi'r rheini sy'n gofalu am oedolion ac i lenwi'r bwlch cyn i'r Gwasanaethau Cymdeithasol greu pecyn yn hytrach na rhoi cymorth parhaus iddi.  Dywedodd Gofalwr M ei bod yn ymddangos nad oedd hi'n gallu cael asesiad ar gyfer Taliadau Uniongyrchol i Ofalwyr ac nad oedd gan NEWCIS unrhyw ddarparwyr addas iddi eu defnyddio ar y cynllun Pontio'r Bwlch a'u bod wedi dweud wrthi y dylai gysylltu â Gwasanaethau Cymdeithasol.  Dywedodd Gofalwr M fod staff NEWCIS a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gefnogol ac yn ceisio helpu ond roedd y broses ei hun yn aneglur.  Dywedodd Gofalwr M ei bod yn deall bod ganddi hawl i gael rhywun i ystyried ei chais i gael asesiad o'i hanghenion a'i chais am Daliadau Uniongyrchol ar wahân i achosion ei phlant.  Dywedodd ei bod yn ansicr sut i gael cynllun cymorth addas ar gyfer ei hanghenion ei hun, fel gofalwr.